# Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol - 26 Chwefror 2002

**Cynigion a gyflwynwyd ar 19 Chwefror 2002**

**NDM965 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

Yn cymeradwyo:

1. Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgol gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2002; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgol gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002

2. Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2002; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002

**NDM966 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan A88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo *Local Government Finance (Wales) Special Grant Report (No 5) (Wales) 2002* a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror 2002.

**NDM967 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi ei werthfawrogiad wrth Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth am gynnal yr ymchwiliad i safle tirlenwi Nantygwyddon, yn nodi argymhellion y Pwyllgor yn yr adroddiad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror, ac yn galw ar yr awdurdodau perthnasol i weithredu argymhellion y Pwyllgor.

**Dadl Plaid Leiafrifol**

**NDM968 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn:

1. Gresynu wrth fethiant Llywodraethau 'Llafur Newydd' y DU a Chymru i ddiogelu a gwella'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru

2. Nodi'r methiant trychinebus i gyflawni'r addewid i leihau amseroedd aros ysbytai yng Nghymru, ac yn

3. Mynnu bod camau effeithiol yn cael eu cymryd ar bob lefel i ddiwallu anghenion iechyd pobl Cymru.

## Gwelliant a Gyflwynwyd ar 20 Chwefror 2002

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliant a ganlyn i gynnig:

**NDM968**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Nodi methiant y Weinyddiaeth Lafur/Ryddfrydol i godi'n sylweddol nifer y cleifion mewnol sy'n cael eu trin yng Nghymru."